# BAGLORIAETH CYMRU
Uwch

# Her y Gymuned
## Gwella Llesiant Cymdeithasol - Corneli Cudd

**Ar gael i'w asesu o fis Medi 2019**




# Gwella Llesiant Cymdeithasol



**PWRPAS**

Pwrpas Her y Gymuned yw meithrin sgiliau dysgwyr, gan annog dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned. Fel rhan o Her y Gymuned, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Cynllunio a Threfnu** ac **Effeithiolrwydd Personol** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

**BRIFF**

Yn yr Her hon cewch gyfle i gyfrannu'n gadarnhaol at gymuned leol, sef Cartref Gofal o'ch dewis chi. Bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar bryderon ac anghenion go iawn drwy weithgareddau sy'n anelu at wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Dylai'r her eich galluogi i ddatblygu fel aelodau effeithiol a chyfrifol o'r gymuned. Wrth gwblhau Her Y Gymuned byddwch yn gallu cydnabod y cyfraniadau gwych y gallwch wneud tuag at wella'r gymuned a'r buddiannau dilynol i chi, i eraill ac i'r gymuned. Lle y bo'n briodol byddwch yn gallu dangos annibyniaeth, cyfrifoldeb a phwysigrwydd gwrando tra'n gweithio'n dda gydag eraill.

Cewch gyfle i feithrin sgiliau cerddorol, cynllunio, trefnu, perfformio a chydweithio i weithredu preswyliad cerddorol 'Corneli Cudd' mewn cartref gofal o'ch dewis. Cynigir yr her hon gan ganolfan celfyddydau ac arloesi Pontio, Prifysgol Bangor. Mae'r her yma'n annog disgyblion i ddefnyddio cerddoriaeth, boed hynny'n ganu, chwarae offeryn neu ddefnyddio cerddoriaeth ddigidol, er mwyn cyrraedd Corneli Cudd o fewn y cartref gofal. Byddwch yn creu perthynas trwy gerddoriaeth gyda phreswylwyr, gan gynnwys rhai fydd yn byw gyda dementia. Byddwch yn gwneud hyn wrth fod yn arloesol a hyblyg gan fynd a'ch cerddoriaeth i bob cornel cudd ffisegol o'r cartref, a dod yn rhan o gymuned y cartref gofal.

Mae'r Her yma'n annog disgyblion cerddoriaeth i weithio a pherfformio mewn ffyrdd gwahanol i'r arfer, bod yn agored i heriau, meddwl ar eich traed a gweithio'n dda gydag eraill.

Fel unigolyn neu'n gweithio gyda thîm (3-6 aelod) byddwch yn cynllunio, trefnu a rhoi menter llesiant gymdeithasol ar waith i helpu i wella llesiant corfforol, emosiynol a chymdeithasol aelodau o'r gymuned. Rhaid i chi dreulio **o leiaf 30 awr** yn cwblhau'r canlynol:

**1.** Paratoi ar gyfer y preswyliad gan gynnwys:
   a) Dethol Cartref Gofal
   b) Trefnu ac ymarfer *repertoire* o ganeuon

   **(uchafswm o 4 awr)**

**2.** a) Gweithredu'r preswyliad cerddorol yn y cartref gofal
   c) Rhannu profiadau am y preswyliad trwy fideo, cyflwyniad llafar neu ddigwyddiad rhannu gyda disgyblion, athrawon ac aelodau o dîm rheoli'r Cartref Gofal

   **(o leiaf 26 awr)**